



Llais y Llan Mehefin 2019

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 24th Gorffennaf 2019

Cyhoeddwyd gan LlanpumsaintCyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Mae Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Gorllewin Brechfa yn cyfrannu'n arianol at Lais y Llan



Pont Glanryrnys - symudodd y ddaear



Ffynnon y Santes Non Tyddewi - Taith Maes Dewinwyr Gorllewin Cymru



Y Dydd Hwyl - y raffl yn mynd yn dda




Llysywen bendoll yn nant Alltwalis

**JUNE 27 AT 7PM
BRONWYDD HALL, BRONWYDD, SA33 6BE**

Helen Williams presents a discussion between best selling author **Dr Kathryn Mannix**, Dr Rebecca Croft Palliative Care Consultant at Ty Cymorth and Euryl Howells Hospital Chaplain as they talk about this powerful collection of stories taken from Dr Mannix's clinical practice working with people with advanced, incurable illness.

Come and join the conversation. There will be tea, cake and fascinating insights



After 30 years as a palliative care specialist, Kathryn Mannix is on a mission. She feels passionately that it's time to re-claim public understanding of the process of dying. Knowing end of life wishes allows us to relate to our dearest and help plan the last part of their – or our - lives. Dying well is a real possibility for which we can plan.

'There aren't all that many books that change the way you see the world. This book really might'. The Sunday Times

Tickets £5.00 Available at Goldstone Books, Hall Street, Carmarthen and Eventbrite

Proceeds to Ty Cymorth

Enquiries to Helen Williams 07986526732



Conffyrmasiwn i blwyfolion newydd



Dail derwen fawr wedi gwiwo

Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Clwb Bowlio Llanpumsaint a Nebo pob Nos Llun a pob Nos Iau 7.30 – 9.30 Neuadd Goffa
Cylch y Pentref Dydd Mawrth Yn yr Eglwys 2.00 – 3.30
Noson Stêc y Rheilffordd pob Nos Fercher 01267253643
Noson 'Fitness Fun' Nos Fawrth 6.30 Neuadd Goffa £4
Cadw'n Heini 50+ pob Dydd Iau 2.00 – 3.00 Neuadd Bronwydd
Llyfrgell Deithiol - pob Dydd Mercher, 10.45 – 11.45, Neuadd Goffa Ffôn 01267 224830
Gwasanaeth Swyddfa Bost ar dydd Gwener 11.15 – 12.15 Neuadd Bronwydd
Gwasanaeth Swyddfa Bost ar ddydd Mawrth 2.00 - 4.00 a dydd Gwener 1.00-3.00 Bryn y Wawr
Merched y Wawr Trydydd Nos Llun o'r Mis yn y Neuadd Goffa
Ail fore Sadwrn bob mis -Y Farchnad Fisol, 10.00 – 12.00 Neuadd Eglwys Llanllawddog
Ti a Fi pob Bore Gwener 10.00 - 12.00 Neuadd Bronwydd
Cylch y Pentref pob Dydd Mawrth 2.00 – 3.30 Eglwys Llanpumsaint
Mehafin 9 Dydd Sul Fferm Agored Esgair a Hafod
Mehafin 12 Nos Fercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd 01267 253643
Mehafin 14 Nos Wener 4.30 Helfa Drysor y Ceir Pwyllgor Lles ac Adloniant
Mehafin 18 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5 y pen Tafarn Rheilffordd
Mehafin 23 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd
Mehafin 24 Dydd Llun 2.00 Clwb gwili 60+ Neuadd Bronwydd
Mehafin 26 Dydd Mercher 10.00 Clinig Traed Neuadd Goffa
Mehafin 27 Nos Iau 7.00 Datlith 'With the end in mind' Neuadd Bronwydd
Mehafin 29 Dydd Sadwrn Bore Coffi Skanda Vale Hospice Saron
Mehafin 29 Dydd Sadwrn Te yn Festri Llanllawddog
Mehafin 30 Nos Sul 7.30 Cwis Hollybrook Bronwydd
Gorffennaf 2 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa
Gorffennaf 8 Dydd Llun 3.30 – 5.00 Eglwys Agored Llanpumsaint
Gorffennaf 10 Nos Fercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd 01267 253643
Gorffennaf 14 Dydd Sul Taith Faesi Dewinwyr Gorllewin Cymru
Gorffennaf 16 Nos Fawrth 6.30 Caws a Gwin Sant Celynyn yn Clwb Criced Bronwydd
Gorffennaf 16 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5 y pen Tafarn Rheilffordd
Gorffennaf 17 Dydd Mercher Clwb gwili 60+ Taith Dyffryn Elan
Gorffennaf 28 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd
Gorffennaf 28 Nos Sul 7.30 Cwis Hollybrook Bronwydd
Gorffennaf 29 Dydd Llun 2.00 Clwb gwili 60+ Neuadd Bronwydd
Awst 2 - 4 Dydd Gwener – Dydd Sul Treialon Cwn Defaid Cenedlaethol Cymru Parc Dinefwr
Awst 9 Dydd Gwener Sioe Flodau'r Amwythig
Awst 14 Dydd Mercher Clwb gwili 60+ Taith Gwibdaith Ddirgel a The
Awst 14 Nos Fercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd 01267 253643
Awst 19 Dydd Llun 2.00 Clwb gwili 60+ Neuadd Bronwydd
Awst 20 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5 y pen Tafarn Rheilffordd
Awst 25 Nos Sul 7.30 Cwis Hollybrook Bronwydd
Awst 26 Dydd Llun Cerddoriaeth a Barbeciw Tafarn Rheilffordd
Awst 29 Nos Iau 8.00 CCB Clwb Bowlio Neuadd Goffa Llanpumsaint

Medi 3 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa
Medi 8 Dydd Sul Taith Faesi Dewinwyr Gorllewin Cymru
Medi 10 Nos Fercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd 01267 253643
Medi 18 Dydd Gwener 1.00 – 6.00 Sesiwn Galw Heibio Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa Neuadd Goffa
Medi 21 Dydd Sadwrn 10.00 – 12.00 Bore Coffi Macmillan Neuadd Goffa
Medi 23 Dydd Llun 2.00 CCB Clwbgwili 60+ Neuadd Bronwydd
Hydref 4 Nos Wener Cwrdd Diolchgarwch a Swper Llanpumsaint
Hydref 28 Dydd Llun 2.00 Clwbgwili 60+ Neuadd Bronwydd
Rhagfyr 7 Dydd Sadwrn Ffair Nadolig – Neuadd Goffa
I logi'r Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri, Ffoniwch Derick Lock 01267253524

Clafdy Skanda Vale.

Bore Coffi yn y Clafdy (sa44 5dv) Sadwrn 29ain Mehefin 10 – 12 o'r gloch
Te, coffi, cacennau, raffl a thombola. Cyswllt hello@skandavalehospice.org
<mailto:hello@skandavalehospice.org>

Pwyllgor Lles a Hamdden Llanpumsaint

Etholwyd y canlynol yn ein Cyfarfod Blynyddol yn y Neuadd ar 30ain o Ebrill –
Cadeirydd - Pamela Jones . Is-gadeirydd - Aaron Jones
Ysgrifennydd - Lyn Evans . Trysorydd - Heledd Jones
Archwilydd - Mary Howell. Trysorydd Clwb Cant - Derick Lock
Archwilydd Clwb Cant - Huw Williams

Y Dydd Hwyl ar y 18fed o Fai - Bu'n llwyddiant mawr gyda'r tywydd heulog y denu cynulleidfya, a'r plant a'r oedolion yn mwynhau.

Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa.

Mae'r Is-bwyllgor ar hyn o bryd yn gwahodd cwmnïau i gynnig tendro am welliannau i'r maes chwarae.

Byddwn hefyd yn cynnig am offer ychwanegol fel rhan o'n cais iddynt.

Helpfa Drysor mewn ceir

Nos Wener 14eg o Fehefin yw'r dyddiad a bydd y ceir yn cychwyn o'r Neuadd rhwng pump a hanner awr wedi chwech ar y noson. £5 y car fydd y gost a chewch fanylion pellach oddi wrth Matthew a Heledd Jones neu Aaron Jones.

Bore Coffi Macmillan

Cynhelir y nesaf yn y Neuadd Goffa ar fore Sadwrn 21ain o Fedi rhwng deg y bore a chanol dydd.

Dyddiadau Eglwysig i Lais y Llan

Bob Dydd Mawrth – Cylch y Pentref – Yr Eglwys 2 – 3.30

Bob ail fore Sadwrn (heblaw Mehefin) – Marchnad Llanllawddog.

Sadwrn 29ain Mehefin 2 yp – Te yn Festri Llanllawddog

Llun 8fed Gorffennaf - Eglwys Agored - Llanpumsaint 3.30 - 5.

Mawrth 16eg Gorffennaf - Noson Caws a Gwin Sant Celynin - Clwb Criced Bronwydd 6.30.

Nos Iau 27ain Mehefin – Darlith – “With the end in mind” - Neuadd Bronwydd

Gweler y poster ar dudalen 2

Nos Wener 4dd Hydref Cwrdd Diolchgarwch a Swper Llanpumsaint

Newyddion Eglwysig

Bu Dydd Sul 12fed o Fai yn achlysur llawen i'n heglwysu wrth i'r Esgob Joanna ymweld i gynnal conffyrmasiwn i saith o'n haelodau. Hyn yn dilyn 4 mis o ymbaratoi mewn dosbarthiadau, lle'r eglurwyd sylfaen y gred Gristnogol, gyda chyfleoedd i drafod a holi. Gwnaeth ymgeiswyr ddatganiad cyhoeddus o'u ffydd a'u hymrwymiad i ddilyn y ffordd Gristnogol wrth gael eu derbyn. Dyma gychwyn ar daith hir oes yn canlyn y ffydd Gristnogol.

Os hoffech wybod mwy am y ffydd Gristnogol neu gonffyrmasiwn cysylltwch â'r Parch Gaynor ar [i-
gaynor@hotmail.com](mailto:i-gaynor@hotmail.com) <<mailto:i-gaynor@hotmail.com>> neu 07796049500 neu'r Ficerdy 01267 253158.

Ewch i'n hwynebddalen am wybodaeth gwasanaethau.

Clwb Bowlio Dadannudd Llanpumsaint a Nebo

Diweddglo'r tymor oedd cadw ein dwylo ar Dlws Coffa Roy Bowen, gan wella ar y fuddugoliaeth 6-2 i ffwrdd ag ennill 8-0 'nol gartre. Llawen oedd gweld Janet, sef gweddw Roy yn cyflwyno'r Tlws i ddwylo ein capten Gethin Edwards. Dyma ganlyniadau Cystadlaethau'r Clwb a gynhelid cyn y Pasg. Nikky Day a Dylan Jones enillodd tllws y parau deu-bren, Llwyddodd Nikky hefyd i gipio Tlws Alan Dentry - Chwaraewr y Flwyddyn - ddewiswyd gan yr aelodau. Mwynhawyd y Cinio Blynnyddol yn y Railwe a diolchwn i Liz a Wayne am noson arbennig.

Cymerwn hoe fach nawr dros dymor yr Haf gan ail gwrdd am ein Cyfarfod Cyffredinol am wyth o'r gloch yn y Neuadd ar nos Iau 28ain o Awst. Bydd tymor newydd 2019-20 yn dechrau ar Nos Lun yr ail o Fedi am 7.30. Cofiwch ymweld â'n gwefan Llanpumsaintsmc.org.uk. Am wybodaeth bellach cysylltwch â Derick Lock 01267 253524 neu'r Ysgrifenyddes Jill Edwards 01267 253474.

Cymdeithas Rhandir Llanpumsaint

Digwyddodd ein diwrnod o lanhau a chomopo ar ddydd Sul 14eg o Ebrill, a diolch i'r aelodau am yr holl welliannau. Unwaith eto bu brechdanau cig moch a selsig Shirley yn ysbrydoliaeth i'r gwirfoddolwyr.

Drwy ddylanwad ein Cadeirydd Ray a chymorth Rosie a Sharon lwyddwyd i ddenu grant oddi wrth Gronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa. Felly daw dau orchudd newydd i'n twnnel poli (un yn lle'r un gollwyd stormydd y gaeaf), cyfarpar garddio, a hefyd creu cyfleoedd i ddenu plant i'r safle.

Tra'n gyrru'r dydd o'r blaen cymerais heol anghyfarwydd felly llyged ar agor oedd hi am arwyddion o gymorth. Ar groesffordd dyma fynd mas o'r car i chwilio am arddwr wedi ei niweidio. Heb ganfod neb dilynais lwybr oedd yn arwain i randir lle'r oedd garddwr wrthi'n gweithio. Cynigais fforch iddo ond gyda throad aruchel o'i ben gwrthododd gan ychwanegu na fyddai fyth yn defnyddio offer mor aneffeithiol. Cyhuddais ef o fod yn snobyn ond wrth ymadael gwrthiodd ddarn o bapur i'm llaw yn cynnwys cyfarwyddiadau'r rhandir. Yna gwaeddodd ar fy ôl, "Dwy'n ddim yn snobyn Dwy'n arddwr aruchell". Mwy am hynny y tro nesal! Os ydych am ymuno a ni yn y rhandir cysylltwch â Keith 253375 neu Ray ar 253157 am wybodaeth bellach.

Sioe Flodau'r Amwythig

Bydd Clwb Garddio Drefach Felindre'r rhedeg taith i Sioe Flodau'r Amwythig ar ddydd Gwener 9fed o Awst 2019. Bydd yn gadael o Neuadd y Ddraig Goch yno am hanner awr wedi wyth y bore, ac yn dychwelid tua wyth yr hwyr. Bydd y bws yn eich tywys hyd fynedfa'r sioe ac yn eich casglu o'r un man.

Gallwch brynu eich tocynnau ar y We, a bydd y Bws yn costio £12. Os ydych am ymuno gwnewch eich siec yn daladwy i Glwb Garddio Drefach Felindre a'i hanfon at Helen Nolan, Coedmor, Adpar, Castell Newydd Emlyn, Ceredigion. Sa38 9eh. Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â Helen ar 07964674297 neu helencoedmor@gmail.com <<mailto:helencoedmor@gmail.com>>.

Clwb Gwili Chwedeg Bronwydd

Daeth Nick Brunger i'n cyfarfod ym mis Ebrill i ddefnyddio hud a lledrith i'n diddani. Profodd ei straeon am Gaerfyrddin i fod yn hynod o ddiddorol.

Aeth ein gwibdaith gyntaf a ni eleni i Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth. Buom yn siopa ar y ffordd yn Aberaeron a chawsom ginio blasus yn yr Amgueddfa wedyn.

Rhaglen Clwb Gwili am yr Haf a'r Hydref

Mercher 12fed Mehefin - Taith i Gastell Penfro a chanolfan Treftadaeth Penfro.

Llun 24ain Mehefin – Cyfarfod 2 yp – Angela Skym - “Hat Lady”

Mercher 17eg Gorffennaf - Gwibdaith - Dyffryn Elan a Chanolfan Grisial Rhaeadr.

Llun 29ain Gorffennaf - Cyfarfod 2 yp - Jenny Hyatt - Ystad Dinefwr.

Mercher 14eg Awst – Gwibdaith Ddirgel a The i ddilyn

Llun 19eg Awst – Cyfarfod 2yp - Eddie Whitehead - “Devil's Device”.

Llun 23ain Awst - 2 yp - Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol.

Llun 28ain Hydref - 2yp – Gareth Richards – “A taste of Autumn Delights”.

Llun 4 dd Tachwedd - Twrci a Thinsell - 4 diwrnod yng Nghei Newydd Cernyw.

Llun 25ain Tachwedd – 2 yp – Ralph Carpenter – “Press Photography”.

Mercher 11eg Rhagfyr - Taith Ddirgel am Ginio Nadolig.

Croesawn aelodau newydd yn Neuadd Bronwydd ar y pedwerydd dydd Llun o'r mis. Ceir manylion pellach oddi wrth Val Giles yr Ysgrifenyddes 01267 281194.

Heddlu Dyfed-Powys Cysylltu Cymdeithasol

Mae'r gwasanaeth Cysylltu Cymdeithasol erbyn hyn yn weithredol drwyddi draw. Bydd y gwasanaeth hwn yn ein galluogi i anfon negeseuon cyflym atoch a'ch galluogi i ymateb yn gadarnhaol. Os am ymuno ewch i www.dpcm.co.uk <<http://www.dpcm.co.uk>>. (Dyfed-Powys Community Messaging). O gyrraedd y dudalen gallwch ddewis pa fath o wybodaeth rych chi am dderbyn, ag ateb rhai cwestiynau am eich ardal.

Bydd y negeseuon a ddaw yn berthnasol i'ch atebion i'r cwestiynau cynt, ac yn debygol o gynnwys cyngor ar atal tor-cyfraith, apêl am wybodaeth droseddol, neu gynnig gwybodaeth am ddigwyddiadau cymdeithasol yn yr ardal. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gymorth i'r cynlluniau Gwarchod (Gwarchod Ffermydd - Gwarchod Ceffylau - Gwarchod Cychod - Gwarchod y Gymuned), yn enwedig pan fod angen trosglwyddo gwybodaeth yn gyflym i ardal arbennig. <https://www.dyfedpowyscommunitymessaging.org/en/>.

Atgyweirio'r ffordd A484 ger Pante Bronwydd.

Daeth cadarnhad oddi wrth Irfon Jones y byddai'r ffordd ar gau o'r 28ain o Fai rhwng saith o'r gloch y nos a chwech y bore am gyfnod o 28 diwrnod, neu pan ddaw'r gwaith arbenigol i ben. Gwelir arwyddion eraill yno i rybuddio teithwyr am oedi hir ar adegau yn ystod y dydd. Tebyg iawn eich bod wedi gweld maint y gwaith ac yn gobeithio gweld llwyddiant er mwyn dychwelid at weld trafnidiaeth yn llifo unwaith eto.

Mae'r Cyngor yn awgrymu'r dargyfeirio canlynol tra bod y ffordd ar gau.

Teithio tua'r de ar y A484 o gyfeiriad Castell Newydd Emlyn - trowch i'r chwith ar gyffordd yr hen Bronwydd Arms i'r B4301. Dilynwch hon drwy'r pentref ac ymlaen i Bontarsais. Yno trowch i'r dde i ymuno a'r A485 drwy Rydargaeau a Peniel am Gaerfyrddin.

Teithio tua'r gogledd o Gaerfyrddin - ymunwch a' A485 am Lamed. Wedi cyrraedd Pontarsais trowch i'r chwith ar y B4301 am Bronwydd. Wedi cyrraedd cyffordd yr hen Bronwydd Arms trowch i'r dde i ymuno'r a'r A484 am Gastell Newydd Emlyn

Treialon Cwn Defaid Cenedlaethol Cymru a'r Ffair Fwyd a Chrefftau

Dydd Gwener 2ail Awst – Parc a Chastell Dinefwr, Llandeilo sa196rt

Tocyn £8 i'r cyhoedd nad ydynt yn aelodau. Gall aelodau o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gael mynediad am ddim hefyd drwy arddangos eu bathodynau.

Bydd y parcio am ddim i bawb. <https://www.welshnationalsheepdogtrials.org.uk/2019-welsh-national-trial/>

Pont Glanryrnys tua Chwm Hagar ac Esgair ar gau

Caewyd y bont er diogelwch ganol Mis Mai eleni. Yn ôl ymchwil Arwyn Thomas mae hi bron yn gant oed. Yn Mehefin 1919 adroddodd y Jynnal fod Cyngor Dosbarth Caerfyrddin wedi ymateb yn gadarnhaol i gais cynghorau Plwyf Cynwil a Llanpumsaint am gael pont dros yr afon Ynys ger ffatri wlân Glanryrnys. Byddai gofyn iddynt gyfrannu treian o'r gost adeiladu. Yn dilyn hynny gwelwyd darn arall yn y Carmarthen Weekly Reporter yn fis Awst yn dweud y byddai'r gwaith adeiladu yn dechrau yn y gwanwyn canlynol. Felly mae hyn yn awgrymu fod y bont yn dyddio o 1920. Gobeithiwn weld ei hadfer cyn bo hir.

Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa

Bydd y Pwyllgor yn cynnal cyfarfodydd trafod drwy'r ardaloedd dan sylw er budd y cyhoedd. Os hoffech ddysgu mwy am y Gronfa, trafod syniadau neu amlygu anghenion dewch i un o'r cyfarfodydd yma rhwng un o'r gloch y Projectau/prynhawn a chwech yr hwyr -

19 Mehefin - Neuadd Gymunedol Peniel

17 Gorffennaf - Ystafell Eglwys Llanllwni

21 Awst - Canolfan Pafiliwn Pencader

18 Medi - Neuadd Goffa Llanpumsaint

Os na allwch ddod i un o'r cyfarfodydd uchod gallwch gysylltu â'n rheolwr cefnogol i ddatblygiadau, Alex, unrhyw bryd - Alex Wilcox Brooke Rheolwr Projectau/ Rheolwr Cefnogol Datblygu Cymunedol -

AlexW@severnwyte.org.uk

Curad Calon Llanpumsaint

Dyma'r criw bach fu'n gyfrifol am sefydlu 4 Adfywiwr mewn gwahanol safleoedd yn yr ardal –

Tu fas y Neuadd Goffa SA33 6BZ

Tu fas Tafarn y Railwe SA33 6BU

Ar wal Fferm yr Henfryn tua Ffynnonhenri SA33 6LD

Tu fas Festri Capel Nebo. SA33 6HN

Er iddynt fod yn eu lle ers tair blynedd a hyd yn hyn ni fu galw amdanynt. Ond pe bai rhywun mewn angen wedi trawiad ar y galon a fydddech yn gwybod ble i fynd a beth i neid? Mae'r Sefydliad Calon Brydeinig yn datgan fod rhywun sydd wedi cael trawiad yn colli 10% o obaith goroesi am bob munud maent heb driniaeth. Felly mae cael Peiriant Adfywio wrth law yn dyngedfennol bwysig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a'r ambiwlans yn debygol o gymerid amser i gyrraedd.

Felly beth yw CPR? (Adfywiad Ysgyfeiniol Cardiaidd - Cardiac Pulmonary Resuscitation)? Gweithred i arbed bywyd rhywun sydd wedi dioddef trawiad ar y galon, drwy helpi lif y gwaed drwy'r corff pan fod y galon wedi pallu curo. Gellir defnyddio'r Adfywiwr gydag oedolion a phlant blwydd oed hyd yn oed. Daw'r peiriant gyda chyfarwyddiadau llawn ynghyn a'r defnydd, ac nid oes peryg achosi sioc drydanol oherwydd bydd y peiriant yn ymwybodol os yw'r galon yn curo.

Gweithredu CPR yw'r unig driniaeth effeithiol pan fod trawiad ar y galon yn digwydd. Mae rhoi sioc drydanol wrth ddefnyddio'r Adfywiwr yn rhoi cyfle i'r galon guro'n gywir unwaith eto. Felly mae'r peiriant a'i ddefnydd yn fodd i arbed bywyd. Mae gan Gurad Calon Llanpumsaint becynnau ymarfer oddi wrth y Sefydliad Cenedlaethol sy'n dangos sut i ddefnyddio'r peiriant. Gallwch fenthyg un er mwyn ymarfer gartre gyda'r teulu drwy gysylltu â Carolyn Smethurst drwy Ebost info@gwilimill.com [<mailto:info@gwilimill.com>](mailto:info@gwilimill.com).

Gall ein Curad Calon wneud a rhagor o wirfoddolwyr i roi help llaw i gynnal a chadw ein peirannau Adfywio, ac efallai aneli at gael mwy. Felly cysylltwch â mi yn y ffordd uchod os gallwch fforddio awr neu ddwy at y gwaith. Carolyn.

Mis Mai – Tywydd amrywiol

Gwyddom yn iawn fod Mai yn gallu bod yn fis amrywiol na ellir dibynnu arno yma yn Llanpumsaint. Y gelyn penna yw rhew hwyr un flwyddyn fe gollo'n ni'n gynabens iddo ar y 12fed o Fehefin. Ond daliwn ati gan blannu tato cynnar yn Ebrill, ac eleni'n dod mhlan yn dda. Daeth rhybudd fod rhew yn berig felly dyma eu gorchuddio'n hyderus. Bore trannoeth 'roedd yn amlwg i'r rhew ddisgyn yn llawer mwy ffyrnig na'r disgwyl. Y dail wedi rhuddo a gwywo - san fferi â! Wrth lwc gwnaeth popeth yn y Tŷ Gwydr oreosi.

Wedyn o edrych o gwmpas gwelwyd fod dail ein coed wedi dioidde, rhai wedi eu rhuddo'n ddu, a hynny ar goed honni'r iddynt fod yn gallu gwrthsefyll i tua 12 gradd dan y rhew bwynt. Gwelwyd fod dail y coed derw hyd yn oed wedi duo, felly dyna beth oedd rhew caled. Erbyn hyn mae'r dail derw'n dod 'nol, a gobeithio byddant i gyd yn adfywio! Mae hyn oll yn ein hatgoffa am ein sgwrs gynta' gyda Malcolm Howells ar ôl cartrefu yn Llanpumsaint. A hithau'n ganol Mai gofynnion iddo pam nad oedd wedi plannu tato eto. Edrychom arnom yn syn gan ddweud nad oedd e' fyth yn plannu dim yn Llanpumsaint hyd Fehefin. Efallai nawr y byddwn yn ail-ystyried ei gyngor flwyddyn nesaf.

Dewinwyr Gorllewin Cymru - Digwyddiadau'r Dyfodol

Sul Mehefin 23ain - Gary a Caroline Biltcliffe - Speingefn Albion a'r Canolfan Grym

Sul 23ain Mehefin - Gary a Carolyn Biltcliffe - "The Spine of Albion & Power centre".

Sul 14eg Gorffennaf - Taith Faes i Three Cleffs a'r Labyrinth

Sul 28ain Gorffennaf - John Billingsly - "Magical House Protection"

Mae dewinio yn ymarfer hynod o ddiddorol a hawdd ei ddysgu a gwnaeth darddu o'r Aifft. Dewisa nifer o gwmnïau ddefnyddio dewinwyr i ganfod mwynau, olew a gwifrau trydan. Dewinia rhai pobl am ddiogelwch eu bwyd ac am straen geopathic yn eu hamgylchfyd ond hyd yn hyn agweddd bersonol yw heb gadarnhad gwyddonol. Dewch atom i Neuadd Bronwydd am 1.45yp, ac am £6 cewch baned yn y fargen. Does dim angen cyfarpar felly cysylltwch â Sandy ar 01267 253547

Gofal Traed Dyma ddyddiadau'r ddau glinig nesaf yn y Neuadd Goffa am 10 o'r gloch y bore ar y 26 Mehefin.

Dylai cleifion newydd gysylltu a Gary Robinson yn ystod yr wythnos rhwng 6 a 8 y.h. ar 07789 344488 fel y dylai cleifion cyfredol sydd yn dymuno canslo eu hapwynytiadau. (gofynnir am rybudd o leiaf 24 awr, plis).

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanpumsaint

Rhagfyr 7fed 2019 – Ffair Nadolig – Neuadd

Codi Arian yn rhwydd.

Os i chi'n siopa ar y we yna gallwch godi arian i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon. Cofrestrwch ar

www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintPTA

<<http://www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintPTA>> neu siaradwch ag Emma Brown.

Ysgol Llanpumsaint

Mae Ysgol Llanpumsaint wedi bod yn ffodus iawn i ennill arian grant oddi wrth Innogy sy'n gysylltiedig gyda Cronfa Gymunedol Fferm Wynt Brechfa. Mae'r arian wedi galluogi yr ysgol i brynu darpar Technoleg Gwybodaeth er mwyn datblygu sgiliau TG ac i drosgwlyddo y sgiliau i'r gymuned cyfan. Rydyn bwriadu cynnal prynhawn agored ar yr 11eg o Orffennaf rhwng 3-4:30y.p yn yr ysgol i'r gymuned cyfan. Mae yna gyfle i fobl y pentref derbyn sesiynau TG oddi wrth y disgyblion dros y flwyddyn academiaidd nesaf, felly manteisiwch ar y cyfle, symudwn ymlaen gyda'n gilydd i fywyd modern trwy dechnoleg. Mi fydd lluniaeth ysgafn ar gael.

Capel Nebo

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

CYLCH Y PENTREF

Yn gyntaf, hoffwn i (Niki) ddweud diolch yn fawr i'r holl bobl sy'n chwifio wrth y wraig yn y gadair olwyn yn cerdded ei chŵn (Tiana). Yn ail, hoffwn ymddiheuro am nad oedd unrhyw gofnod yn y rhifyn diwethaf, roeddwn yn meddwl fy mod wedi anfon un i mewn ond mae'n ymddangos ei fod wedi'i golli mewn seiber-ofod!!

Hoffwn chwalu'r myth, gan fod cylch y pentref yn cyfarfod yn yr Eglwys, ei fod yn grŵp crefyddol. Nid ydym, ond mae gennym y moethusrwydd o allu cyfarfod mewn adeilad hanesyddol hardd. O'r diwedd rydym wedi bod yn ymgynnull yn yr awyr agored mewn tywydd heulog a byddem yn gwerthfawrogi rhai o ymgarelau'r gerddi, os oes gennych unrhyw rai nad oes eu heisiau mwyach, y gallem eu defnyddio'n dda.

Mae myth hefyd ein bod yn grŵp crefft. Dydyn ni ddim ond os hoffech chi grefft tra byddwch chi'n sgwrsio a chael diod Mae croeso mawr i chi. Ar hyn o bryd mae gennym bobl sy'n gwau, crosio a chroesbwytho a fyddai'n fodlon helpu os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Rwy'n falch o gyhoeddi bod cylch y pentref bellach yn cael ei e-bost ei hun a gellir cysylltu ag ef ar thevillagecircle19@hotmail.com. Rydym yn bwriadu sefydlu tudalen Facebook yn y dyfodol agos. Edrychwn ymlaen at eich gweld yn fuan. Niki Day a Helen Thomas

CYLCH MEITHRIN BRONWYDD

Ein Thema'r tymor hwn yw "ailgylchu" yn seiliedig ar y llyfr "Ailgylchu gyda Cyw". Mae pawb wedi bod yn brysur yn dod a'u poteli plastig gwag, cardfwrdd a thuniau i mewn i'r Cylch i'w hailgylchu i mewn i bethau newydd fel rocedi, matiau ceir a pharlwr godro. Yn yr wythnos olaf, buon yn plannu blodau yn ein hardal allanol. Diolch yn fawr iawn i'r Clwb Criced am yr hawl i ddefnyddio darn o dir i blannu blodau, a diolch enfawr hefyd i'r Clwb Garddio am greu lle deniadol i ni i blannu. Rydym mor ddiolchgar am eu hamser a'u haelioni. Braf oedd gweld y plant yn awyddus i blannu blodau yn y teiars lliwgar, a'u dyfrhau. Yn ein hanner tymor nesaf, ein thema bydd Dewin a'i ffrindiau yn dathlu. Dyma yw thema'r Wyl Feithrin eleni sy'n cael ei chynnal yn yr Ardd Fotaneg ar yr 20fed o Fehefin. Bydd Dewin siŵr o fod yno i ddiddanu'r plant. Byddwn hefyd yn paratoi ar gyfer y Mabolgampau trwy gydol mis Mehefin. Mae'r plant yn mwynhau rhedeg rasys amrywiol ac y maent yn magu llawer o hyder erbyn y Mabolgampau.

Cofiwch hefyd ein bod yn cynnal ein sesiynau Ti a Fi bob bore Gwener yn ystod amser tymor rhwng 10yb a 12 hanner dydd. Oes oes gennych fabi newydd yn eich teulu, dewch lawr i gwrdd â babis eraill. Mi gewch groeso cynnes, sgwrs a dished o de neu goffi.

Ymholiadau am y Cylch i Verona (07929 431652)

Capel Ffynnonhenri

Dyma fanylion y gwasanaethau am fisoedd Mehefin a Gorffennaf 2019

Mehefin 9 2019 Gwasanaeth am 3.30y.p. Parch Wyn Maskell

Mehefin 23 2019 Cymundeb am 4.00 y.p. Parch Huw George

Mehefin 30 2019 Gwasanaeth Undebol yn Graig, C.N. Emlyn 10.00 y.b. i'w gadarnhau

Gorffennaf 14 2019 Gwasanaeth am 2.00 y.p. Manylion pellach i ddod

Gorffennaf 28 2019 Cymundeb am 5.00 y.p. Parch Eirian Wyn Lewis

Hefyd llawer o ddiolch i bawb a gefnogodd ein Swper yn y Neuadd Goffa yn ddiweddar. Fe fu'r noson yn llwyddiant mawr. Diolch yn fawr.

Os am fanylion pellach cysylltwch â Danny Davies Trysorydd ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas Ysgrifennydd ar 01267 253686

Caersalem

Ac wedi dyfod dydd y Pentecost, yr oeddynt hwy oll yn gytûn yn yr un lle. Ac yn ddisymwth y daeth sŵn o'r nef, megis gwynt nerthol yn rhuthro, ac a lanwodd yr holl dŷ lle yr oeddynt yn eistedd.... A hwy oll a lanwyd â'r Ysbryd Glân.... Actau 2

Cwrdd bod dydd Sul am 2pm. Cwrdd arbennig ar Awst 4ydd pan fydd Jeanne Campbell (nèe Phillips, gynt o Fronhaul a merch Towy Sawmills) a Billy ei gŵr yn dathlu eu penblwydd priodas gyda ni ar ôl 50 mlynedd! Priodon nhw ym 1969 yng Nghaersalem ac maen nhw wedi bod yn gweithio yn Hong Kong am ran helaeth o'r amser ers hynny. Cwrdd Saesneg fydd e, dan eu gofal nhw, ond ma croeso cynnes i bawb.

Eleri Morris: 01267 253895

Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Mae'n drist mewn gwirionedd ond mae hi wedi dod i hyn; mae Cyngor Cymuned Llanpumsaint wedi penderfynu cyfarfod am yn ail fis oherwydd nad yw'r Cyngor Sir yn gwrandao arnom. Rhoddwyd esboniad i'r Sir ynglŷn â beth yw hanfod Cyngor y Gymuned, sef clustiau a llygaid ein hardal ac wrth wrando ar gwynion bobl y gymuned mae'r Cyngorwyr yn dod a nhw i gyfarfod o'r Cyngor, ac wedi eu trafod, rhoddir gwybod i'r Sir am yr hyn sydd angen ei wneud. Nid oes gan Gyngor y Gymuned y modd i lenwi tyllau yn yr heol, glanhau'r cwteri neu'r awdurdod i ostwng cyflymdra trafnidiaeth ar hyd ein heolydd; mi allai Cyngor y Gymuned godi'r arian o'r gymuned ar gyfer gwneud rhai o'r pethau yma ond nid oes gennym y strwythurau sydd eu hangen i'w cyflawni; strwythurau sydd eisoes yn bodoli gyda'r Sir a hefyd, mae gan y Cyngor Sir gyfrifoldebau statudol i wneud llawer iawn o bethau nad ydynt yn eu gwneud ar hyn o bryd. Penderfyniad doeth ar ran Cyngorwyr Cymuned Llanpumsaint yw gostwng nifer y cyfarfodydd; mae democratiaeth leol wedi colli clust y Sir a does dim diben gweiddi. Felly, yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol a gynhaliwyd ar ddechrau'r mis, penderfyniad Cyngor y Gymuned oedd, o hyn allan, i gyfarfod yn Fis Ionawr, Mawrth, Mai, Gorffennaf, Medi a Thachwedd.

Bont y Ffatri

Cafwyd gwybodaeth gan Peter Morgan, Prif Beiriannydd Priffyrdd Cyngor Sir Gâr, ynglŷn a'r bont sydd wedi cau. Dywedodd y Prif Beiriannydd fod Peirianwyr yr Adran Briffyrdd wedi gwneud archwiliad o'r bont, a'u bod wedi creu cynlluniau ar sut mae ei drwsio dros dro. Gweithlu'r Cyngor fydd yn gwneud y gwaith, felly ni fydd oedi wrth aros am gwmnïau allanol ddyfynnu prisiau, a gobeithir i'r gwaith adfer gychwyn o fewn y pythefnos nesa ac iddo gael ei gwblhau ymhen mis. Eisioes, roedd yna gynlluniau ar gyfer ail-adeiladu'r bont ond ei drwsio yw'r flaenoriaeth nawr a gwneir y gwaith mwy sylweddol rhywbryd y flwyddyn nesaf, ar ôl cael trafodaeth gyda'r gymuned ynglŷn a'r amser mwyaf cyfleus i gau'r heol am gyfnod.

Tŷ Hers

Yn yr oes a fu, roedd yr adeilad cerrig sydd wrth ymyl safle bws Teras Gwili yn cadw'r elor gerbyd neu'r hers, a rhywbryd yn y gorffennol, daeth yr adeilad yn eiddo i'r gymuned a Chyngor y Gymuned sydd â gofal amdano. Ers blyneddoddd mwyach, mae'r adeilad wedi cael ei rhentu ac mae'r tenant presennol yn gadael yr ardal ac wedi rhoi'r adeilad nôl. Os oes gan rywun arall yn y gymuned ddiddordeb yn ei rhentu, rhowch gynnig arno a chynigiwch beth yw ei werth i chi mewn rhent ac os fydd mwy nag un a diddordeb ynddo, y sawl fydd wedi cynnig talu'r rhent uchaf fydd y tenant newydd. Danfonwch eich cynigion i'r Clerc. Cyhoeddir pwy fydd y tenant newydd ym Mis Medi.

Phil Jones 01267253512, clerk@llanpumsaint.org.uk/communitycouncil

Hunllef!

Teimlai'r Cynghorwyr a'r arweinwyr lleol yr un mor grac â'r dorf anniddig o'u blaen yn y Neuadd orlawn .. pawb am eglurhad o'r datganiad moel a chreulon yn y Western Mail y diwrnod cynt ...

“ .. Daeth cadarnbad o Westminster fod y Mesur Seneddol i foddi dyffryn Llanpumsaint wedi llwyddo er bod holl Aelodau Cymru a'r Senedd yng Nghaerdydd wedi gwrthwynebu'n llwyr ...”

..Dyweddodd snyddog ar ran y Lhwodraeth fod y safle'n un delfrydol .. byddai dŵr yr afon Gwili a'i nentydd yn ddigonol i greu llyn tair milltir o hyd a milltir a hanner o led .. hyn i ateb gofynion trefi a dinrydiant i'r dyfodol. Cyngorwyd y pentrefwyr i beidio ag ymgyrchu a gwrthwynebu'r cynllun oherwydd yr holl fanteision a deiau yn sgil y fenter Byddai canolfannau cychod ar dop Rhin Llandre a Ffynnonhenri i bysgotwyr ac ymwelwyr yn creu gwaith i rai wedi iddynt symud o'r pentref .. Byddai nifer o dai haf hefyd i ardal Nebo.

.... Cyn boddi'r mynwentydd dylai perthnasau wneud cais am unrhyw feddau maent am eu symud ... Bydd rhai'r Eglwys i'w casglu o dop Rhin Cwppers a gellir cael rhai Bethel a Caersalem ger mynedfa Skanda Vale. Cyn gynted a bod Cyngerdd Ffarwel olaf yr ysgol wedi gorffen dylai rhieni gasglu'r plant yn syth oherwydd bod y peiriannau'n anyddus i ddymchwel yr adeilad. .. Dylid symud unrhyw gofeb sydd i'w anfon i Amgueddfa Caerfyrddin o'r Neuadd Goffa cyn i'r muriau ddod i lawr.

Rhoddwyd addenid i drigolion ardal Cynwil a Chwmdryfran oedd yn meddwl symud, y byddai argae Cwm Tredarren yn ddigon cryf a sefydlog i ddal y llyn Gall ardal Llanpumsaint edrych ymlaen at dyfodol llenyrchus .. ac mi fydd pentrefwyr yn siŵr o werthfawrogi eu cartrefi newydd yng Nghaerfyrddin a Llanybydder ...

Ffrwyth dychymyg o'dd hwnna'i gyd? Ie siŵr o fod! Alle fe ddigwydd? Anhebygol iawn! Ond nid yn amhosib oherwydd fe ddigwyddodd yn y gorffennol. 'Nol yn y chwedegau'r ganrif ddiwethaf er holl brotestiadau Cymru gyfan, gyda lleisiau amlwg o Lanpumsaint yn eu plith, boddwyd cymuned ger y Bala.

Dyna pam ddyle ni fyth anghofio ... COFIWCH DRYWRYN ..

Amryn 2019



Village Voice June 2019

Copy Date for next Edition 24th July 2019

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange
www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to
info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY
 Brechfa Forest West Wind Farm Community Fund provides some funding for Village Voice



Bridge near Nantyrnyns - the earth moved!



St. Non's Well, St David's from Dowzers Field Trip



Fun Day - Brisk Sales for the Raffle



Lampreys in Nant Alltwallis

**JUNE 27 AT 7PM
BRONWYDD HALL, BRONWYDD, SA33 6BE**

Helen Williams presents a discussion between best selling author **Dr Kathryn Mannix**, Dr Rebecca Croft Palliative Care Consultant at Ty Cymorth and Euryl Howells Hospital Chaplain as they talk about this powerful collection of stories taken from Dr Mannix's clinical practice working with people with advanced, incurable illness.

Come and join the conversation. There will be tea, cake and fascinating insights




After 30 years as a palliative care specialist, Kathryn Mannix is on a mission. She feels passionately that it's time to re-claim public understanding of the process of dying. Knowing end of life wishes allows us to relate to our dearest and help plan the last part of their – or our - lives. Dying well is a real possibility for which we can plan.

'There aren't all that many books that change the way you see the world. This book really might'. The Sunday Times

Tickets £5.00 Available at Goldstone Books, Hall Street, Carmarthen and Eventbrite

Proceeds to Ty Cymorth

Enquiries to Helen Williams 07986526732



Recently Confirmed Parishioners



Frost Blackened Oak Tree

What's on in the Village – please put these dates in your diary

Every Monday and Thursday from September 2nd Short Mat Bowls 7.30 – 9.30 Memorial Hall

Every Tuesday 2.00 – 3.30 Village Circle Llanpumsaint Church

Every Tuesday 'Fitness Fun' at the Memorial Hall at 6.30 pm. £4 per 1-hour session.

Every Wednesday Steak Night at the Railway Inn 01267 253643

Every Wednesday 10.45- 11.45 Mobile Library outside Memorial Hall, details 224830

Every Thursday 2.00 - 3.00 Fitness for 50+ Ladies Bronwydd Hall

Every Tuesday 2.00 – 4.00 and Friday 1.00 – 3.00 Mobile Post Office, layby Bryn y Wawr

Every Friday 11.15 – 12.15 Mobile Post office Outside Bronwydd Hall

Every Third Monday – Merched y Wawr Memorial Hall

Every Friday 10.00 – 12 noon Ti a Fi sessions Cylch Meithrin Bronwydd Hall

Every Second Saturday in the month, Monthly Market 10 – 12 Llanllawddog Church Hall

June 9 Sunday 12.00 to 4.00pm Open Farm Sunday Esgair and Hafod Farms Llanpumsaint

June 12 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – phone 253643 to book

June 14 Friday 4.30 Car Treasure Hunt Welfare and Recreation Association

June 18 Tuesday 7.00 Curry and Quiz Railway Inn £5 per head

June 23 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

June 24 Monday Clwb gwili 60+ 2.00 Bronwydd Hall

June 26 Wednesday 10.00 Foot Clinic Llanpumsaint Memorial Hall

June 27 Thursday 7.00 Talk 'With the End in Mind' Bronwydd Hall

June 29 Saturday 10.00 – 12.00 Coffee Morning at Skanda Vale Hospice Saron

June 29 Saturday 2.00 Afternoon Tea Llanllawddog Church Hall

June 30 Sunday 7.30 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

July 2 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall

July 3 Wednesday 8.00 Community Council Meeting Memorial Hall

July 8 Monday 3.30 – 5.00 Open Church Llanpumsaint

July 10 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – phone 253643 to book

July 14 Sunday Field Trip Dowsers

July 16 Tuesday 6.30 Cheese and Wine for St Celynin Church @ Bronwydd Cricket Club

July 16 Tuesday 7.00 Curry and Quiz Railway Inn £5 per head

July 17 Wednesday Clwb gwili 60+ Trip Elan Valley

July 28 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

July 28 Sunday 7.30 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

July 29 Monday 2.00 Clwb gwili 60+ 2.00 Bronwydd Hall

August 2 Friday – 4 Sunday Welsh National Sheepdog Trials Dinefwr Park

August 9 Friday Shrewsbury Flower Show

August 14 Wednesday Clwb gwili 60+ Mystery Trip and Afternoon Tea

August 14 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – phone 253643 to book

August 19 Monday 2.00 Clwb gwili 60+ 2.00 Bronwydd Hall

August 20 Tuesday 7.00 Curry and Quiz Railway Inn £5 per head

August 25 Sunday 7.30 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

August 26 Monday Music and BBQ Railway Inn – More details in next Village Voice

August 29 Thursday 8.00 AGM Bowls Club Memorial Hall

September 3 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall
September 8 Sunday Field Trip Dowzers
September 10 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – phone 253643 to book
September 18 Wednesday 13.00 – 18.00 Drop-In Session Brechfa Forest Community Fund Memorial Hall
September 21 Saturday 10.00 – 12.00 Macmillan Coffee Morning Memorial Hall
September 23 Monday 2.00 AGM Clwbgwili 60+ Bronwydd Hall
October 4 Friday Church Harvest Service and Supper
October 28 Monday Clwbgwili 60+ 2.00 Bronwydd Hall
December 7 Saturday PTA Christmas Fair Memorial Hall
Llanpumsaint and Ffynnon Henri Memorial Hall – to book phone Derick Lock on 253524

LLANPUMSAINT WELFARE AND RECREATION ASSOCIATION

The Association's AGM was held at the Memorial Hall on 30th April 2019.

The following officers were elected:

Chair: Pamela Jones, Vice-Chair: Aaron Jones, Secretary: Lyn Evans, Treasurer: Heledd Jones, Auditor: Mary Howell, 100 Club Treasurer: Derick Lock, 100 Club Auditor: Huw Williams.

The Llanpumsaint Funday was held on 18th May which was a great success. The weather was fine and sunny; it was well attended and enjoyed by adults and children alike.

Brechfa Forest West Wind Farm Community Fund

The Association Fund sub-committee is in the process of inviting companies to tender for the improvement works in the park. Additional park equipment will also be considered as part of the bid for the funding.

Car Treasure Hunt

This will be held on Friday 14th June. The cost is £5 per car leaving the Memorial Hall from 5.00pm to 6.30 pm. Further details can be obtained from Mathew and Heledd Jones and Aaron Jones.

The Macmillan Coffee Morning will be held at the Memorial Hall on Saturday 21st September 2019 from 10am until 12 noon. **Lyn Evans**

Church dates for Village Voice

Every Tuesday Village Circle @ Llanpumsaint Church 2-3.30

